**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (23)**

**Dydd Mawrth, 22 Hydref 2002**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Ethol**

**i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd**
*NDM1175* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol David Ian Jones (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn lle David Davies (Ceidwadwyr).

**Eitem 2**
**Ethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
*NDM1176* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwyr) i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Eitem 3**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Datganiad: Polisi Chwarae**

**Eitem 5**
**Datganiad Busnes: Y**

**Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 6**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Diwygio) 2002 dan Reol Sefydlog 24**

*NDM1177 -C*ynnig bod:
Y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd

Gwladol yn gwneud The Special Educational Needs Tribunal (Amendment) Regulations 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2002.

Cliciwch yma i weld  The Special Educational Needs Tribunal (Amendment) Regulations 2002 - Dim copi Cymraeg ar gael
Cliciwch yma i weld The Special Educational Needs Tribunal (Amendment) Regulations 2002 - Explanatory Memorandum **-** Dim copi Cymraeg ar gael

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad  Grant Arbernnig Rhif 10 ar gael gwared ar oergelloedd**
*NDM1178* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif (10) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2002.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Grant Arbennig (Rhif (10) (Cymru) 2002

**Eitem 8**
**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Adfywio Cymunedol**

*NDM1179* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, "Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o Adfywio Cymunedol", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.

Cliciwch yma i weld "Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o Adfywio Cymunedol - "Dim copi Cymraeg ar gael

**Eitem 9**
**Dadl Plaid Cymru**

*NDM1180* **-** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn datgan ei bryder mawr ynghylch y colli swyddi a fu yng nghymunedau Cymru dros y misoedd diwethaf a'r tueddiad parhaus i'r ifainc a'r economaidd weithgar adael Cymru;

2. yn gresynu at y ffaith fod y bwlch ffyniant rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol yn parhau i ledu, er bod Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gael yng Nghymru;

3. yn nodi'r dadrithiad cyffredinol ynghylch methiant Llywodraeth Cymru i ddyfeisio a gweithredu strategaeth gredadwy i hyrwyddo adfywiad economaidd;

4. yn galw am i bolisi economaidd yng Nghymru gael ei seilio ar yr angen i wasgaru ffyniant i bob rhanbarth; cynyddu'r pwyslais ar fusnesau cynhenid; strategaeth i wella ansawdd swyddi a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol; ac i wella'n radical y broses geisio a phenderfynu yn rhaglen Amcan Un.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Dileu popeth ar ôl y geiriau "Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi, yn lle hynny:
Yn croesawu'r dystiolaeth ddiweddar am y cynnydd yn y lefelau o weithgarwch economaidd a chyflogaeth yng Nghymru, ac yn cadarnhau ei gefnogaeth i strategaeth Llywodraeth y Cynulliad - "Cymru'n Ennill" - er mwyn annog busnesau cynhenid ac arloesol, gwella ansawdd swyddi, estyn cyfle i bob rhan o Gymru a manteisio'n llawn ar y Rhaglen Amcan Un.

*Gellir cael "Cymru'n Ennill" ar y Rhyngrwyd trwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:*

http://www.cymru.gov.uk/themesbudgetandstrategiccontent/neds/index.html - Dim copi Cymraeg ar gael. Ni fydd y ddogfen ar gael We'r Siambr.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 4;
Dileu "yn galw am i bolisi economaidd yng Nghymru gael ei seilio ar yr angen i wasgaru ffyniant i bob rhanbarth;" a rhoi "yn galw ar bob rhanbarth i gael eu trin yn gyfartal o ran cwrdd â'r argyfwng economaidd ac i bolisïau gael eu seilio" yn ei le.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 23 Hydref 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**